**Bwletin o Batagonia 10 – y Cantor gan Twm Elias**



*Y cantor aeliog, yn y Gaiman, Dyffryn Camwy*

Yr adar mwyaf cyffredin ac eang eu dosbarthiad yn Nyffryn Camwy yw aelodau o deulu'r gwatwarwyr *(Mimidae)*. Fe'u gwelir ar lwyni'r paith, ar dir amaethyddol, yn y trefi a phentrefi, ac maent yn adar bywiog a chwilfrydig. Mae yna 34 aelod yn nheulu'r *Mimidae*, i gyd yn byw yn ne a gogledd America, 5 rhywogaeth yn yr Ariannin a 3 o'r rhain yn Nyffryn Camwy.

Adar main, yr un maint a'n deryn du neu fronfraith yng Nghymru, ond â chynffon hirach. Cefnau llwyd-frown, boliau golau, a llinell wen uwchben y llygad. Ceir rhywfaint o wyn ar y gynffon a'r adenydd a bydd yr amrywiaeth ym mhatrwm y gwyn, ynghyd â maint yr aderyn a dwyster y llinell wen uwch y llygad yn fodd i wahaniaethu rhwng y rhywogaethau welir yn y Dyffryn.

Ystyr yr enw *Mimidae* yw gwatwarwyr neu ddynwaredwyr – rhain yw *mocking birds* yr UD am eu bod yn dynwared caneuon adar eraill i ychwanegu at eu *repertoire* cyfoethog eu hunnain. Dyma strategaeth welir hefyd ymysg teuluoedd eraill o adar ar draws y byd, a thybir mai y rheswm am hynny yw bod yr iâr yn debycach o ddewis cymar gyda'r amrywiaeth fwyaf yn ei gân. Bydd hynny'n arwydd o geiliog profiadol a llwyddiannus; goroeswr sy'n gwybod be ydi be ac wedi cael amser i gyfoethogi ei gân. Bydd yn debycach felly o wneud job dda o fagu'r cywion.

Y gwatwarwyr yw'r enw safonol Cymraeg ar deulu y *Mimidae*, a'r enwau Sbaenaidd ar y mathau welir yn Nyffryn Camwy yw calandria, Ond mae enw Cymraeg gan Gymry Patagonia, sef y cantor. Y ddau mwyaf cyffredin yw y cantor aeliog *(Mimus saturninus)* sydd i'w weld amlaf o fewn ac o gwmpas tref y Gaiman, a cantor y paith *(Mimus patagonicus)* sydd fwyaf cyffredin ar y paith. Ni welais y cantor adeinwyn *(Mimus triurus)* yn ystod fy ymweliad â'r Gaiman rhwng Mawrth a Gorffennaf 2022, am mai dim ond yn yr haf y bydd hwnnw i'w weld yma.



*Cantor y paith, sydd ychydig yn llai na'r cantor aeliog*

Enw addas iawn yw cantor o ystyried cyfoeth ei gân. Mae'n debyg mai yr un aeliog fyddai'n ennill pe cynhelid Eisteddfod yr adar, a dywedir ei fod yn aml yn dynwared chwiban ddynol. Bum yn chwibannu nodau amrywiol ar rai ohonynt sawl gwaith, a'r deryn yr ymateb drwy ddistewi, dod yn nes, a gwrando'n astud â'i ben wedi gwyro ychydig i un ochr. Ond wnaeth yr un fy nynwared i. E'lla y byddai gwell siawns o hynny yn y tymor nythu, oedd rai misoedd i ffwrdd, neu fy mod yn chwibanwr gwael iwn, pwy a ŵyr?